WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



# Adroddiad Gwella Blynyddol

## yn cynnwys adroddiad Asesu Corfforaethol 2014

# Cyngor Sir Ceredigion

Cyhoeddwyd: Medi 2014
Cyfeirnod y ddogfen: 500A2014

# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth, a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi'r Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Ar y cyd ag archwilwyr penodedig, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian yng nghyswllt llywodraeth leol ac yn asesu'r graddau y cydymffurfir â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Nod yr Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu adroddiadau cymesur, sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd, ynghylch y modd y caiff adnoddau cyhoeddus eu gwarchod, ac wrth wneud hynny, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliannau.

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn wedi'i baratoi ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Alex Rawlin, Colin Davies, Ena Lloyd, Gareth Lewis, Jeremy Evans, John Golding (Grant Thornton), Justine Morgan, Katherine Simmons, Llinos Brown (Grant Thornton) a Ros Jones, o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno, argymhellion a chynigion ar gyfer gwella** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 7

Mae arweinyddiaeth gadarn a chlir yn ysgogi ymagwedd gorfforaethol a chydweithredol sy'n canolbwyntio ar wella canlyniadau gwasanaeth i ddinasyddion, ond mae'r ymgysylltiad â dinasyddion yn llai nag effeithiol 9

Mae gan y Cyngor fodel llywodraethu cadarn ac effeithiol gyda llinellau atebolrwydd clir lle mae prosesau craffu a herio yn datblygu'n dda 11

Mae'r Cyngor yn rheoli ei adnoddau'n dda i ddarparu gwasanaethau gwell i ddinasyddion, er ei fod yn wynebu penderfyniadau anodd os yw am lwyddo i gydbwyso ei gyllideb yn y tymor canolig 12

Mae gan y Cyngor drefniadau gwell i reoli'r gwaith o gyflawni arbedion a chanlyniadau cadarnhaol i ddinasyddion, drwy weithio mewn partneriaeth a chydweithredu 17

Mae'r Cyngor yn rheoli ei raglen wella yn fwy effeithiol ac mae'n ymgorffori diwylliant yn seiliedig ar berfformiad drwy weithredu fframwaith rheoli perfformiad corfforaethol newydd 19

Mae'r Cyngor wedi gwella ei brosesau yn sylweddol, er mwyn gallu cynllunio a monitro ei weithgarwch ar gyfer ei agenda gwella, ond mae'r cynnydd tuag at gyflawni ei ganlyniadau arfaethedig yn parhau i fod yn amrywiol 23

Mae'r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus ar gyfer 2014-15 28

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 29

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Geredigion a Chyngor Sir Ceredigion 30

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol 32

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Ceredigion 34

Atodiad 5
Astudiaethau Achos a nodwyd yn ystod ein gwaith ar ein Hasesiad Corfforaethol yng Nghyngor Sir Ceredigion 35

# Adroddiad cryno, argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

## Mae gan y Cyngor arweinyddiaeth gadarn a chlir ac, ar ôl cynnal proses ailstrwythuro mewnol, mae'n arddangos diwylliant yn seiliedig ar berfformiad corfforaethol sydd â photensial da i ysgogi'r gwelliannau angenrheidiol i wasanaethau a chanlyniadau i'w dinasyddion

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar waith yr arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, ac ar waith a wnaed ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan staff Swyddfa Archwilio Cymru a Grant Thornton, gyda chymorth Arolygiaethau Cymru, Estyn (ar gyfer addysg), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Chomisiynydd y Gymraeg. Rydym wedi cyflwyno darlun o'r hyn mae Cyngor Sir Ceredigion (Y Cyngor) yn ceisio ei gyflawni, sut mae'n gwneud hynny, a'r cynnydd mae wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad blynyddol diwethaf ar welliannau. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu ar hunanasesiad y Cyngor ei hun. Yn olaf, a chan ystyried y rhain, daw i gasgliad o ran pa un a yw'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn y bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

2 Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad bod y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus ar gyfer 2014-15. Mae'r farn hon yn adlewyrchu casgliadau ei asesiad corfforaethol, sef bod **gan y Cyngor arweinyddiaeth gadarn a chlir ac, ar ôl cynnal proses ailstrwythuro mewnol, mae'n arddangos diwylliant yn seiliedig ar berfformiad corfforaethol sydd â photensial da i ysgogi'r gwelliannau angenrheidiol i wasanaethau a chanlyniadau i'w ddinasyddion**.

3 Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- Mae arweinyddiaeth gadarn a chlir yn ysgogi ymagwedd gorfforaethol a chydweithredol, sy'n canolbwyntio ar wella canlyniadau gwasanaeth i ddinasyddion, er bod yr ymgysylltiad â dinasyddion yn llai nag effeithiol.
- Mae gan y Cyngor fodel llywodraethu cadarn ac effeithiol, gyda llinellau atebolrwydd clir lle mae prosesau craffu a herio yn datblygu'n dda.
- Mae'r Cyngor yn rheoli ei adnoddau'n dda i ddarparu gwasanaethau gwell i ddinasyddion, ond mae'n wynebu penderfyniadau anodd os yw am lwyddo i gydbwyso ei gyllideb yn y tymor canolig:
  - mae trefniadau cynllunio a rheoli ariannol corfforaethol cryf wedi galluogi'r Cyngor i bennu cyllideb gytbwys ar gyfer 2014-15, ac mae'n hyderus y bydd yn cyflawni'r arbedion corfforaethol angenrheidiol;
  - mae'r Cyngor yn ystyried sut y bydd yn newid y broses o ddarparu gwasanaethau er mwyn llywio'r gostyngiadau arwyddocaol sydd eu hangen mewn costau dros y

tair blynedd nesaf, ac ymgysylltu'n well â defnyddwyr gwasanaethau a dinasyddion, er mwyn llywio ei benderfyniadau;

- mae'r Cyngor yn rheoli ei asedau yn dda ac mae'r swyddogaeth Adnoddau Dynol mewn sefyllfa dda i chwarae rhan effeithlon ac effeithiol wrth ddiwallu anghenion gwasanaethau; ac
- mae trefniadau'r Cyngor, a'i ddefnydd o dechnoleg a gwybodaeth, yn helpu i ddarparu gwasanaethau gwell i ddinasyddion.

- Mae gan y Cyngor drefniadau gwell i reoli'r gwaith o gyflawni arbedion a chanlyniadau cadarnhaol i ddinasyddion drwy weithio mewn partneriaeth a chydweithredu.
- Mae'r Cyngor yn rheoli ei raglen wella yn fwy effeithiol, ac mae'n ymgorffori diwylliant yn seiliedig ar berfformiad drwy gyflwyno fframwaith rheoli perfformiad corfforaethol newydd:
  - mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliannau o dan y Mesur, ond gallai wneud mwy i weithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru;
  - mae trefniadau rheoli perfformiad yn datblygu, ond mae angen mwy o amser i ddatblygu model sy'n rheoli perfformiad ac yn ysgogi newidiadau gwirioneddol i ganlyniadau gwasanaeth;
  - mae adroddiadau cyhoeddus y Cyngor ar berfformiad yn deg a chytbwys ar y cyfan, ond nid yw'n darparu gwerthusiad clir i ddinasyddion eto o'r cynnydd mae'r Cyngor yn ei wneud i gyflawni ei amcanion gwella ac effaith ei weithgareddau gwella ar ddefnyddwyr gwasanaeth a dinasyddion; ac
  - mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau ar gyfer cyflwyno adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau.
- Mae'r Cyngor wedi gwella ei brosesau yn sylweddol, er mwyn gallu cynllunio a monitro ei weithgarwch ar gyfer ei agenda gwella, ond mae'r cynnydd tuag at gyflawni ei ganlyniadau arfaethedig yn parhau i fod yn amrywiol:
  - nid yw rhaglen dreigl o gynlluniau lleihau ynni wedi cyflawni gostyngiad cyfatebol mewn allyriadau $CO_2$ y Cyngor, er bod cynlluniau diwygiedig ar waith i wella'r canlyniadau dros y flwyddyn sydd i ddod;
  - mae'r Cyngor wedi cynnal ei ffocws cryf ar leihau gwastraff, sydd wedi'i alluogi i gyrraedd targedau cenedlaethol;
  - mae gwasanaeth addysg y Cyngor wedi'i asesu fel y gwasanaeth gorau o'i fath yng Nghymru;

– gwneir cynnydd gyda phrosesau'r Cyngor i foderneiddio ei gymorth i bobl sy'n agored i niwed, ond mae enghreifftiau o arferion da yn cael eu gwrthbwyso gan risgiau allweddol, a allai effeithio ar gyflymder y newid; ac

– mae'r Cyngor wedi cymryd camau cadarnhaol i ffurfioli'r cyfrifoldeb dros y Gymraeg o fewn y Cyngor ond ni lwyddodd i gyrraedd pob targed yn ei gynllun gweithredu yn ystod 2012-13.

## Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

4 Nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion statudol yn ystod y gwaith blaenorol a wnaed eleni ac nid ydym yn gwneud unrhyw argymhellion yn yr adroddiad hwn. O ystyried yr amrediad eang o wasanaethau sy'n cael eu darparu, a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem yn canfod pethau y gellir eu gwella. Mae'r cynnig canlynol ar gyfer gwella yn deillio o'n gwaith asesu corfforaethol ym mis Chwefror 2014.

Dylai'r Cyngor ddatblygu cynllun strategol sy'n amlinellu gweledigaeth glir ar gyfer darparu ei wasanaethau yn y dyfodol o fewn y cyfyngiadau ariannol y mae'n eu hwynebu yn y tymor canolig. Dylai'r cynllun hwn ystyried ac amlinellu, o fewn amserlen glir, sut y mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud y canlynol:

- cyflawni ei flaenoriaethau gwasanaeth ynghyd â sicrhau'r gostyngiadau mewn costau/ffrydiau incwm gwell sydd eu hangen ar gyfer y tymor canolig;
- ymgynghori ac ymgysylltu â'i ddinasyddion i lywio penderfyniadau mewn perthynas â chynigion sy'n ymwneud â newid gwasanaethau;
- gwerthuso a phenderfynu pa fodelau gweithredu busnes sy'n cynnig yr opsiynau gorau i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol, gan gynnwys asesiadau o'r risgiau cymdeithasol a chymunedol yn sgil y toriadau arfaethedig mewn gwariant;
- sicrhau bod prosesau craffu amserol a chadarn a threfniadau llywodraethu priodol eraill yn cael eu rhoi ar waith er mwyn rheoli a chyflawni newid; ac
- ar ôl cyflwyno newid, monitro a chraffu ar berfformiad a gwasanaeth ariannol i sicrhau bod gostyngiadau mewn costau yn cael eu gwireddu a bod safonau gwasanaeth a chanlyniadau y cytunwyd arnynt yn cael eu cyflawni.

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

5 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda chymorth gan arolygiaethau yng Nghymru, Estyn (ar gyfer addysg), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Chomisiynydd y Gymraeg, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni, sut mae'n gwneud hynny, a'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf. Mae'r adroddiad hefyd yn seiliedig ar hunanasesiad y Cyngor ei hun. Yn olaf, gan ystyried hyn oll, daw'r adroddiad i gasgliad o ran pa un a yw'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

6 Yn 2013-14, dechreuodd staff Swyddfa Archwilio Cymru ar gylch pedair blynedd o asesiadau corfforaethol o awdurdodau gwella yng Nghymru. Mae hyn yn golygu, yn ogystal â'r rhaglen flynyddol o astudiaethau gwella ac archwiliadau o ymagweddau cynghorau at gynllunio ac adrodd gwelliannau, y bydd pob awdurdod yn cael asesiad corfforaethol manwl unwaith yn ystod cyfnod o bedair blynedd. Yn y blynyddoedd rhwng hynny, byddwn yn cadw llygaid ar y datblygiadau drwy ddiweddariadau ar gynnydd.

7 Cynhaliwyd asesiad corfforaethol yn y Cyngor yn ystod mis Chwefror 2014. Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn ymgorffori canfyddiadau'r Asesiad Corfforaethol, yn ogystal â darparu trosolwg mwy cynhwysfawr na'r hyn a fyddai'n cael ei gyflwyno fel arall yn nhrefniadau corfforaethol a llywodraethu'r Cyngor. Er nad nod yr asesiad corfforaethol yw darparu asesiad cynhwysfawr o berfformiad pob un o wasanaethau'r Cyngor, mae'n adrodd ar lwyddiant blaenorol y Cyngor o ran perfformiad a chanlyniadau, yn ogystal â'r trefniadau allweddol sydd eu hangen i ategu'r gwelliannau i wasanaethau a swyddogaethau.

8 Roedd ein gwaith maes ar gyfer yr asesiad corfforaethol yn canolbwyntio ar i ba raddau y mae'r trefniadau yn cyfrannu at gyflawni perfformiad gwasanaethau a chanlyniadau gwell i ddinasyddion. Roedd yr asesiad corfforaethol yn gofyn am ateb i'r cwestiwn canlynol:

- **'A yw'r Cyngor yn gallu cyflawni ei flaenoriaethau a chanlyniadau gwell i ddinasyddion?'**

9 Mae'r asesiad corfforaethol yn cwmpasu'r canlynol:

- **Gweledigaeth a chyfeiriad strategol:**

  'A yw gweledigaeth a chyfeiriad strategol y Cyngor yn cefnogi gwelliannau?'

- **Llywodraethu ac Atebolrwydd:**

  'A yw trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd y Cyngor yn cefnogi proses gadarn ac effeithiol o wneud penderfyniadau?'

- **Defnyddio adnoddau:**

  'A yw'r Cyngor yn rheoli ei adnoddau yn effeithiol, er mwyn cyflawni ei welliannau i berfformiad a chanlyniadau?'

- **Cydweithredu a phartneriaethau:**

  'A yw trefniadau cydweithredu a phartneriaethau yn gweithio'n effeithiol i wella perfformiad a chanlyniadau?'

- **Rheoli gwelliannau:**

  'A yw'r Cyngor yn rheoli ei rhaglen wella yn effeithiol?'

- **Perfformiad a chanlyniadau:**

  'A yw'r Cyngor yn gwneud cynnydd at gyflawni ei welliannau arfaethedig i berfformiad a chanlyniadau?'

10 Mae casgliadau'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau ein hasesiad corfforaethol ac ar wybodaeth gronnol a gwybodaeth a rennir, a chanfyddiadau gwaith a gafodd flaenoriaeth yn ystod y flwyddyn hon.

11 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir gwella arnynt. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella – os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

12 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

## Mae arweinyddiaeth gadarn a chlir yn ysgogi ymagwedd gorfforaethol a chydweithredol sy'n canolbwyntio ar wella canlyniadau gwasanaeth i ddinasyddion, ond mae'r ymgysylltiad â dinasyddion yn llai nac effeithiol

13 Mae'r cysylltiadau rhwng cynlluniau strategol a chynlluniau'r Cyngor ar gyfer gwasanaethau yn sicrhau bod y Cyngor yn cyfleu ei weledigaeth yn glir ac yn effeithiol i'w ddinasyddion a'i brif randdeiliaid. Datblygwyd Cynllun Integredig Sengl, sy'n rhoi amlinelliad o weledigaeth y Bwrdd Gwasanaeth Lleol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth a rannwyd o un asesiad o anghenion. Mae'r aelodau, yr uwch swyddogion a'r partneriaid yn ymwybodol iawn o'r Cynllun Integredig Sengl. Roedd arolwg dinasyddion Swyddfa Archwilio Cymru[1] yn datgan bod canran uchel (64 i 87 y cant) o'r cyhoedd yn cytuno bod blaenoriaethau gwella'r Cyngor yn feysydd priodol i'w blaenoriaethu.

14 Mae newidiadau sylweddol wedi arwain at sefyllfa lle mae uwch reolwyr yn meddu ar ddealltwriaeth well o flaenoriaethau corfforaethol, sy'n hyrwyddo amlygrwydd gwell a chydweithredu gwell rhwng gwasanaethau. Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a chadarn yn y Gwasanaeth Dysgu yn arwain arfer yn y sector. Datblygwyd y model hwn ymhellach ac mae'n cael ei ymgorffori drwy'r Cyngor cyfan. Mae hyn yn sicrhau arfer gwell drwy'r sefydliad cyfan.

15 Ceir cysylltiad clir rhwng amcanion strategol y Cyngor, drwy'r cynlluniau busnes ac i'r system arfarnu ac i amcanion personol unigolion. Adeg yr adolygiad, roedd gan tua 70 y cant o'r holl staff amcanion unigol penodedig, fodd bynnag, mae hyn yn cuddio'r ffaith bod gan cyn lleied â 28 y cant o staff amcanion penodedig mewn rhai gwasanaethau. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen datrys y mater hwn, ac mae Penaethiaid Gwasanaeth yn arwain y gwaith hwn, er mwyn sicrhau bod gan bob aelod o staff y Cyngor amcanion personol ac asesiadau perfformiad cadarn.

16 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu ymagwedd llawer fwy trylwyr ar gyfer mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd eisoes. Bellach mae gan y Cyngor ddiwylliant dysgu agored amlwg ac mae'n ceisio manteisio ar sylwadau adeiladol ar bob cyfle.

17 Dengys y Cyngor, y Cabinet, y Gwasanaeth Craffu a'r swyddogion ethos tîm craidd – *Tîm Ceredigion*. Gan rannu gweledigaeth gyffredin ar gyfer gwella gwasanaethau, mae pob un yn ymwybodol o'r angen i gyrraedd targedau uchelgeisiol priodol er mwyn darparu'r gwasanaethau gorau posibl a gwella canlyniadau i ddinasyddion Ceredigion.

18 Cyflwynwyd ystod o ddulliau er mwyn rhaeadru gwybodaeth drwy'r Cyngor, ond nid yw'r dulliau cyfathrebu o'r bôn i'r brig mor gadarn ac mae'n faes sydd angen ei ddatblygu ymhellach. Mae'r Cyngor yn ymgysylltu'n dda â'i bartneriaid a Llywodraeth Cymru, ac mae'n cyfathrebu'n dda gyda rhanddeiliaid ond nid cystal gyda dinasyddion.

19 Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ymgysylltu â'r cyhoedd, ac mae'n cyfathrebu gyda hwy'n rheolaidd. Er enghraifft, mae'r Cyngor yn cynnal arolygon barn rheolaidd gyda'i ddinasyddion, gan ddefnyddio Panel Dinasyddion sefydledig. Sefydliad partner allanol sy'n gyfrifol am gynnal yr

1 Arolwg Dinasyddion Ar-lein Swyddfa Archwilio Cymru 14 Chwefror – 30 Ebrill – 301 o ymatebion

arolygon hyn a dadansoddi'r canlyniadau. Fodd bynnag, mae tystiolaeth nad yw panel dinasyddion y Cyngor yn cynrychioli poblogaeth y sir gyfan. Mae hyn, a dehongliad camarweiniol achlysurol o ganlyniadau arolwg y panel, yn lleihau gwerth yr ymgysylltiad hwn. Er enghraifft, dangosodd ein harolwg dinasyddion nad oedd 84 y cant o'r ymatebwyr wedi gweld y Cynllun Integredig Sengl. Roedd canrannau tebyg o ddinasyddion wedi datgan nad oeddent wedi gweld y Strategaeth Gorfforaethol na'r Cynllun Gwella. Roedd hyn yn gwrthddweud crynodeb y panel dinasyddion, a oedd yn awgrymu bod tua 65 i 70 y cant o banel y dinasyddion wedi gweld y dogfennau hyn. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gwendidau hyn, ac mae'n ystyried adolygu cyfansoddiad y panel dinasyddion, a herio'r dadansoddiad o ganfyddiadau ei arolygon.

20 Er bod y Cyngor wedi cynnal nifer o weithgareddau ymgysylltu yn y gymuned, er enghraifft y gweithgareddau a oedd yn gysylltiedig â'r gyllideb, roedd diffyg hysbysiadau amserol wedi golygu nad oedd llawer o ddinasyddion wedi eu mynychu. Defnyddiodd y Cyngor y cyfarfodydd hyn i gyfleu ei sefyllfa ariannol a'i ymagwedd tuag at bennu cyllideb, er bod ansicrwydd ynglŷn â sut y cafodd unrhyw faterion a godwyd gan ddinasyddion eu hystyried a sut yr ymatebwyd iddynt. Yn yr un modd, mae'r Cyngor wedi ymgynghori gyda rhanddeiliaid a dinasyddion ynglŷn â'i flaenoriaethau, ond nid yw ei Gynllun Gwella yn datgan yn glir beth oedd canlyniadau'r ymgynghoriad na'r dylanwad ar y Cynllun.

## Mae gan y Cyngor fodel llywodraethu cadarn ac effeithiol, gyda llinellau atebolrwydd clir lle mae prosesau craffu a herio yn datblygu'n dda

21 Caiff rolau a chyfrifoldebau'r Uwch Swyddogion ac Aelodau eu disgrifio a'u nodi'n glir yng nghyfansoddiad a dogfennau ategol y Cyngor. Mae'r ymddygiad a ddisgwylir gan aelodau etholedig a swyddogion wedi'i nodi'n glir yn y cyfansoddiad. Caiff y disgwyliad hwn ei ategu gan bwyllgor Moesau a Safonau a chanllawiau a phrosesau. Mae'r Aelodau a'r Swyddogion yn ymddwyn yn unol â'r codau ymddygiad priodol; teimla'r Aelodau a'r Swyddogion eu bod wedi'u grymuso gan eu rolau ac maent yn deall y cyfrifoldebau perthnasol sy'n gysylltiedig â phob swyddogaeth. Caiff yr ymagwedd hon ei hategu ymhellach gan ymdeimlad o falchder yng Ngheredigion fel ardal ac fel Cyngor.

22 Mae strwythurau llywodraethu'r Cyngor wedi'u hymgorffori'n dda yn dilyn y gwaith ailstrwythuro. Mae rôl a swyddogaeth pob grŵp wedi'u diffinio'n glir ac mae'r broses gyfathrebu rhwng y grwpiau yn glir ac agored. Mae'r Cyngor wedi llwyddo i wella ei ddiwylliant yn aruthrol, mewn cyfnod byr, ac mae ymdeimlad corfforaethol ac ymdeimlad o atebolrwydd gwirioneddol. Mae prosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor yn llawer cliriach yn awr, ac mae'r ystod lawn o wybodaeth sydd ar gael yn hysbysu'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud. Fodd bynnag, byddai'n bosibl atgyfnerthu dulliau cofnodi cyfarfodydd a'r penderfyniadau ac mae'r Cyngor yn parhau i weithio ar gyhoeddi ei gofrestrau penderfyniadau dirprwyedig.

23 Mae'r ymagweddau craffu a herio yn datblygu'n dda, ac mae ffocws cynyddol ar graffu cyn gwneud penderfyniadau yn cynorthwyo proses gadarn o wneud penderfyniadau a chonsensws ar y ffordd ymlaen. Mae grwpiau gorchwyl a gorffen a llifau gwaith, a gyflwynwyd yn ddiweddar, yn helpu'r aelodau craffu i fod yn fwy gwybodus ynglŷn â'r pynciau sy'n cael eu hystyried. Gydag anogaeth Arweinydd y Cyngor, mae cyfarfodydd y Cabinet yn darparu cyfleoedd pellach i graffu a herio oherwydd bod yr aelodau'n gallu holi cwestiynau i'r tîm arwain ac aelodau'r cabinet.

24 Mae'r cysylltiadau rhwng pwyllgorau craffu a phartneriaethau strategol wedi'u sefydlu, ac mae trefniadau gofynnol ar gyfer craffu ar gynlluniau partneriaeth yn flynyddol wedi'u mandadu. Nodwyd sawl enghraifft o weithgarwch partneriaeth a fu'n destun proses graffu effeithiol gan y Cyngor, ond gellid bod wedi gwella tryloywder ac effaith gadarnhaol hyn drwy sianelu hyn drwy'r rhaglen waith y prosesau craffu ffurfiol.

# Mae'r Cyngor yn rheoli ei adnoddau'n dda i ddarparu gwasanaethau gwell i ddinasyddion, ond mae'n wynebu penderfyniadau anodd os yw am lwyddo i gydbwyso ei gyllideb yn y tymor canolig

## Mae trefniadau cynllunio a rheoli ariannol corfforaethol cryf wedi galluogi'r Cyngor i bennu cyllideb gytbwys ar gyfer 2014-15 ac mae'n hyderus y bydd yn cyflawni'r arbedion corfforaethol angenrheidiol

25 Mae Cynghorau yn rheoli eu cyllidebau mewn amgylchiadau economaidd heriol ac mewn cyd-destun o alw cynyddol am wasanaethau. Rhaid rheoli pwysau o ran costau ochr yn ochr â phwysau sylweddol ar wasanaethau sy'n gysylltiedig ag effaith poblogaeth sy'n heneiddio ar wasanaethau, ymhlith materion eraill.

26 Mae gan y Cyngor flaenoriaethau clir, rheoliadau ariannol cryf a thîm cyllid galluog er mwyn rheoli ei gyllidebau. Mae trefniadau priodol a sefydledig ar waith ar gyfer pennu a rheoli cyllidebau, ac mae'r rhain wedi gwasanaethu'r Cyngor yn dda. Canfuom fod y gwariant yn erbyn y gyllideb refeniw yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r gyllideb refeniw a bennwyd dros y bum mlynedd ariannol ddiwethaf.

27 Fodd bynnag, mae'r galw cynyddol ar wasanaethau yn fwy anodd ei reoli, yn arbennig yn y gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Yn 2012-13, roedd gorwariant o tua £1.6 miliwn ar y gyllideb gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Ymatebodd y Cyngor, gan gydnabod y pwysau ar y gwasanaeth, a sicrhawyd cynnydd o £2 filiwn yn y gyllideb ar gyfer 2013-14. Er gwaethaf y cyllid ychwanegol hwn, gorwariodd y gwasanaethau hyn unwaith eto yn ystod 2013-14, sef swm o £283,000 yn gyffredinol. Er y cafwyd tanwariant yng nghostau staff Cartrefi Preswyl a Thimau Oedolion, roedd cynnydd yn narpariaeth Gofal Cartref a Thaliadau Uniongyrchol i bobl hŷn wedi arwain at orwariant s o tua £0.5 miliwn yn y meysydd hyn. Cafwyd achosion pellach o orwariant hefyd yn y gwasanaethau Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl. Hefyd, defnyddiodd yr Cyngor ffrydiau cyllid untro o £400,000 yn 2013-14, na fyddant ar gael yng nghyllideb 2014-15. Felly, roedd y gorwariant sylfaenol gwirioneddol tua £683,000. Mae hyn yn rhannol oherwydd oedi wrth i'r gwasanaeth gyrraedd targedau arbedion effeithlonrwydd rhagorol.

28 Gan gydnabod nad yw costau'r model darparu gwasanaethau cymdeithasol presennol yn gynaliadwy, mae'r Cyngor yn gweithio i foderneiddio ei wasanaethau ar gyfer pobl hŷn. Er bod y Cyngor o'r farn ei fod yn gwneud cynnydd da, mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) wedi nodi nifer o risgiau a allai effeithio ar gyflymder y cynnydd y bydd y Cyngor yn ei wneud yn y maes gweithgarwch hollbwysig hwn.

29 Rhaid i drefniadau rheoli ariannol y Cyngor allu delio hefyd â phwysau llai rhagweladwy o ran costau. Er enghraifft, arweiniodd gwariant nad oedd wedi'i gyllidebu yn 2013-14, a oedd yn gysylltiedig â'r stormydd a gafwyd yn y Sir yn ystod mis Ionawr a mis Chwefror 2014, at orwariant o £634,000 ar ddiwedd y flwyddyn. Cafodd y gorwariant

hwn ei ariannu o arbedion a wnaed mewn meysydd eraill yng nghyllideb y Cyngor.

30 Roedd perfformiad cyffredinol y gyllideb yn 2013-14 £1.084 miliwn yn well na'r hyn a ragwelwyd gan y Cyngor, ar ôl caniatáu ar gyfer trosglwyddiadau net o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd. O ganlyniad i hyn, gwelwyd gostyngiad o ddim ond £77,000 ym Malans y Gronfa Gyffredinol o gymharu â'r gyllideb a oedd yn rhagweld gostyngiad o £1.156 miliwn. Cyflawnwyd hyn drwy godi a chredydu £1.2 miliwn ychwanegol o Dreth Gyngor drethadwy i gyfrifon y Cyngor, o gymharu â'r hyn a gyllidwyd.

31 Mae sicrhau lefel ddarbodus o gronfeydd wrth gefn yn elfen hollbwysig o sefydlogrwydd ariannol. Polisi'r Cyngor yw cynnal Balans ei Gronfa Gyffredinol rhwng tri y cant a phump y cant o'i ofyniad cyllideb refeniw. Eto, dros y pum mlynedd ariannol diwethaf, mae'r Cyngor wedi cynnal balans cymharol gyson ar y cyfan, a hynny o fewn ei darged, gan lwyddo i fantoli'r gyllideb bob blwyddyn. Ar 31 Mawrth 2014, roedd balans cyffredinol y Gronfa Gyffredinol yn £5.7 miliwn, sy'n cynrychioli 4.4 y cant o'r gyllideb refeniw, sy'n agos at ben uchaf targed y Cyngor.

32 Er bod gan y Cyngor lwyddiant blaenorol o nodi a chyflawni'r arbedion sydd eu hangen arno i fantoli cyllideb gytbwys, mae'r mesurau cyni presennol yn golygu y bydd maint y gostyngiadau sydd eu hangen i gostau dros y tymor byr i'r tymor canolig yn heriol iawn.

33 Roedd y setliad terfynol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2013 a gostyngiad o 4.6 y cant yn y Cyllid Allanol Cyfun, a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru, yn llawer gwaeth na'r hyn a ragwelwyd gan y Cyngor, a oedd yn golygu bod angen cyflymu'r gwaith er mwyn pennu cyllideb gytbwys ar gyfer 2014-15. Mabwysiadwyd ymagwedd drylwyr a chorfforaethol gan y swyddogion a'r aelodau er mwyn diogelu gwasanaethau ac ariannu blaenoriaethau, gan nodi'r arbedion corfforaethol/incwm ychwanegol angenrheidiol o £9.4 miliwn a fyddai, ynghyd â'r cynnydd o bump y cant yn y Dreth Gyngor a'r bwriad i ddefnyddio £1.4 miliwn o'r cronfeydd cyffredinol wrth gefn, yn galluogi'r Cyngor i bennu cyllideb gytbwys ar gyfer 2014-15. Roedd y Cyngor wedi ceisio ymgysylltu â dinasyddion a chymunedau yn ei gynlluniau ar gyfer y gyllideb drwy gyfres o weithdai a gynhaliwyd yn chwe thref fwyaf y Cyngor 0nd, fel y nodwyd yn gynharach, ni lwyddodd y rhain i gyfleu'r her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor nac i gyfleu'r agenda newid gwasanaeth/lleihau costau i'r dinasyddion.

34 Mae'r Cyngor wedi nodi a dyrannu adnoddau ychwanegol er mwyn cyflawni'r cynllun arbedion yn 2014-15 ac mae'n gymharol hyderus y bydd yn llwyddo i gyflawni'r arbedion arfaethedig o £9.4 miliwn. Canfuom fod aelodau'r cabinet wedi cael gwybodaeth gynhwysfawr ynglŷn â gweithredu'r cynllun arbedion ond, pan gynhaliwyd ein gwaith maes, roedd aelodau'r gwasanaeth craffu yn llai gwybodus am y mater hwn ac roedd ganddynt lefelau ymgysylltu is.

## Mae'r Cyngor yn ystyried sut y bydd yn newid y broses o ddarparu gwasanaethau er mwyn cyflawni'r arbedion angenrheidiol o ran costau dros y tair blynedd nesaf, ac ymgysylltu'n well â defnyddwyr gwasanaethau a dinasyddion er mwyn llywio ei benderfyniadau

35 Nid yw'r mesurau cyni yn dangos unrhyw arwyddion o leddfu wrth symud ymlaen. Cafodd y Strategaeth Ariannol Tymor Canol 2014-15 ei diweddaru a'i chymeradwyo gan y Cyngor ym mis Chwefror 2014. Mae'r cynllun yn nodi heriau ariannol sylweddol yn y blynyddoedd nesaf yn sgil y gostyngiadau pellach a ragwelir yn y cyllid a ddaw oddi wrth Lywodraeth Cymru. Mae'r Cyngor yn rhagweld ar hyn o bryd y bydd bwlch cronnol o tua £22 miliwn yn y gyllideb yn ystod y tair blynedd ariannol nesaf ac y bydd angen £11 miliwn o'r arbedion hyn er mwyn pennu cyllideb gytbwys ar gyfer 2015-16. Hyd yma, mae'r Cyngor wedi canolbwyntio ar wneud arbedion effeithlonrwydd drwy gyflawni mwy am lai. Fodd bynnag, mae'n cydnabod nad yw'r ymagwedd hon yn gynaliadwy o ystyried maint yr her ariannol y mae'n ei hwynebu.

36 Mae'r Cyngor yn adolygu ei wasanaethau ar hyn o bryd gan ystyried a yw'n bosibl, ac a ddylid cynnal, lleihau neu ddileu'r rhain; mae hefyd yn ystyried dewisiadau amgen ar gyfer darparu gwasanaethau, naill ai ar y cyd â phartneriaid eraill, gan gynnwys grwpiau cymunedol, neu drwy lunio contractau i'r sector preifat neu'r sector gwirfoddol ddarparu gwasanaethau. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo weithio'n galetach i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a dinasyddion mewn trafodaeth ddwy ffordd a dangos bod eu safbwyntiau yn cael eu clywed. Mae holiadur ymgynghori â'r cyhoedd yn cael ei gynnal ar hyn o bryd er mwyn casglu barn dinasyddion ar sut y maent yn credu y dylid darparu'r gwasanaethau hynny y maent yn eu gwerthfawrogi fwyaf, yn y dyfodol, o ystyried y cyfyngiadau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor. Ym mis Medi 2014, mae'r Cyngor yn bwriadu rhannu ymatebion y dinasyddion gyda chynghorwyr er mwyn bod yn sail i'r penderfyniadau anodd y bydd angen iddynt eu gwneud wrth gynllunio'r ffordd ymlaen. Bydd ymgynghoriad cyhoeddus pellach yn cael ei gynnal ar unrhyw gynigion penodol i newid gwasanaethau.

37 O ystyried y ffaith bod y Cyngor wedi nodi'r angen i gynllunio a chyflawni arbedion sylweddol o ran costau drwy drawsnewid ei wasanaethau, a hynny o fewn amserlen cymharol fyr, rydym yn credu ei bod yn briodol i'r Cyngor adolygu ei drefniadau monitro ac adrodd ar ei gynllun cyllidebu/arbedion er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben ac yn cefnogi proses graffu gadarn gan swyddogion ac aelodau. Mae angen i'r Cyngor sicrhau hefyd bod ganddo drefniadau cadarn i werthuso effaith unrhyw newidiadau arfaethedig i wasanaethau mewn cysylltiad â'r blaenoriaethau gwella a nodwyd ganddo a chanlyniadau sydd wedi'u targedu ar gyfer ei ddinasyddion.

## Mae'r Cyngor yn rheoli ei asedau yn dda ac mae'r swyddogaeth Adnoddau Dynol mewn sefyllfa dda i chwarae rhan effeithlon ac effeithiol wrth ddiwallu anghenion gwasanaethau

38 Mae gan y Cyngor Gynllun Rheoli Asedau cyfredol, ac mae'n datblygu Cynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaethau mewn cydweithrediad â'i Benaethiaid Gwasanaethau. Mae gan y Cyngor ymagwedd drawsbynciol tuag at reoli asedau ac mae hyn yn cael ei gefnogi gan ei drefniadau rheoli perfformiad newydd. Mae rheoli asedau yn rhan hollbwysig o Strategaeth Ariannol Canol Tymor y Cyngor, ac mae'n rhesymoli, ail-fodelu ac yn cyd-leoli gwasanaethau.

39 Mae'r Cyngor wedi parhau i ddatblygu ei raglen rhesymoli adeiladau, ac mae wedi cyd-leoli rhai o'i wasanaethau. Hefyd, mae 'siop un stop', sydd eisoes ar waith yng Nghanolfan Rheidol, yn cael ei hefelychu yn Neuadd y Sir, Aberaeron ac yn Aberteifi, er mwyn gwella mynediad i gwsmeriaid.

40 Drwy Raglen Drawsnewid y Cyngor a'r gwaith o ailstrwythuro'r swyddogaeth Adnoddau Dynol, mae'r adran Adnoddau Dynol wedi gallu cyflawni ei swyddogaethau yn fwy effeithlon er mwyn diwallu anghenion y gwasanaethau. Mae atebolrwydd yr adran Adnoddau Dynol yn glir ac mae gan y swyddogaeth Adnoddau Dynol ddiben a gweledigaeth glir ar gyfer darparu ei gwasanaethau.

41 Nid yw'r Cyngor wedi nodi unrhyw arbedion penodol sy'n gysylltiedig â staff ar gyfer 2015-16. Mae'r Cyngor wedi nodi meysydd i'w hadolygu ond mae angen gwneud rhagor o waith i ddeall y newidiadau a fydd yn cael eu gwneud a nifer y bobl y bydd y newidiadau hyn yn effeithio arnynt. Fodd bynnag, gellir cyflawni rhai o'r cyfleoedd i gefnogi arbedion i'r gyllideb drwy gydgysylltu gweithgareddau hyfforddiant yn well, drwy sefydlu grŵp hyfforddiant corfforaethol, crynhoi'r cyllidebau hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth o'rr gweithgarwch hyfforddiant sydd ar gael.

## Mae trefniadau'r Cyngor a'r defnydd a wna o dechnoleg a gwybodaeth yn cefnogi gwasanaethau gwell i ddinasyddion

42 Mae trefniadau'r Cyngor, a'r defnydd a wna o dechnoleg a gwybodaeth, yn cefnogi gwasanaethau gwell i ddinasyddion. Mae gan y Cyngor strategaeth dechnoleg a gwybodaeth glir, sy'n cysylltu'n dda gydag ysgogwyr cenedlaethol, yn ogystal ag agenda'r Cyngor ar gyfer gwella.

43 Mae gan y Cyngor lwyddiant blaenorol o gyflawni prosiectau TG, gyda phrosesau rheoli prosiect cadarn. Mae gan y Cyngor ymagwedd dda hefyd at reoli gwybodaeth, ac mae ganddo drefniadau diogelwch priodol ar waith. Wrth ymateb yn dda i'r cynigion a wnaed yn ein hadroddiadau blaenorol ar gyfer gwella, mae'r Cyngor wedi atgyfnerthu diogelwch gwybodaeth, drwy gyflwyno rheolaethau ar ddefnyddio cyfryngau symudol, defnyddio cof bach wedi'u hamgryptio a rheoli'r defnydd o byrth USB ar ei gyfrifiaduron. Mae Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth y Cyngor yn derbyn gwybodaeth gynhwysfawr ynglŷn â

materion sy’n ymwneud a gwybodaeth ac, ar ôl derbyn hyfforddiant, mae’n gallu gwneud penderfyniadau clir a gwrthrychol ynglŷn â’r risgiau sy’n wynebu ased gwybodaeth y Cyngor.

44 Mae’r Cyngor yn arddangos nifer o enghreifftiau o arfer addawol, y gellir ei gyflwyno’n fwy cyffredinol yn y sector cyhoeddus, er enghraifft, cyflwyno a defnyddio proses rheoli dogfennau electronig, a defnyddio technoleg a gwybodaeth i ddelio â sefyllfaoedd o argyfwng, yn cynnwys y llifogydd a’r llanw uchel yn ddiweddar.

45 Tîm technoleg cymharol fach sydd gan y Cyngor; oherwydd hyn mae rhywfaint o bryder ynglŷn â gallu’r Cyngor i gyflawni ei gynlluniau technoleg a gwybodaeth. Fodd bynnag, bydd datblygu mesurau perfformiad newydd ar gyfer y gwasanaeth yn helpu’r Cyngor i fonitro a rheoli ei berfformiad.

## Mae gan y Cyngor drefniadau gwell i reoli'r gwaith o gyflawni arbedion a chanlyniadau cadarnhaol i ddinasyddion drwy weithio mewn partneriaeth a chydweithredu

46 Mae gan y Cyngor hanes hir o ddarparu gwasanaethau i ddinasyddion, ac ymrwymiad i wneud hynny, mewn partneriaeth â chydweithrediad â chynghorau a phartneriaid darparu gwasanaeth eraill. Er nad yw argymhellion adroddiad Comisiwn Williams wedi'u mabwysiadu'n genedlaethol eto, mae gan y Cyngor farn glir ar gyfer trefniadau partneriaeth a chydweithredu yn y dyfodol. Mae'r Cyngor yn parhau i weithio mewn cydweithrediad â nifer o bartneriaid a chynghorau eraill, er budd pobl Ceredigion.

47 Caiff y Bwrdd Gwasanaeth Lleol ei gadeirio gan Arweinydd y Cyngor, ac mae'n cynnwys 12 aelod. Er bod consensws bod y bobl gywir wedi'u dewis i wneud penderfyniadau a gweithredu, ystyrir bod rhai partneriaid yn ymgysylltu llai nac y dylent, a'u bod yn anfon cynrychiolwyr gwahanol yn aml i gyfarfodydd y Bwrdd.

48 Bu i'r Cyngor gynnal adolygiad ac asesiad o bartneriaethau strategol a chydweithrediadau rhanbarthol yn 2013. Roedd yr adolygiad yn edrych ar y trefniadau llywodraethu, rheoli ariannol, rheoli perfformiad ac effaith partneriaethau a chydweithrediadau presennol. O ganlyniad i'r adolygiad, daeth nifer o bartneriaethau llai i ben. Mae'r Cyngor yn datblygu ymagwedd i sicrhau bod unrhyw brosiectau cydweithredol newydd yn cael eu hategu gan achos busnes a'u bod yn destun proses graffu briodol.

49 Mae trefniadau newydd ar waith ar gyfer cefnogi a chydgysylltu partneriaethau, sydd i'w ganmol. Darperir cymorth partneriaeth gan swyddogion fel rhan o rôl ehangach a mwy gweithredol, ac maent yn cwrdd yn rheolaidd i sicrhau bod cysylltiadau'n cael eu gwneud ar draws y partneriaethau strategol gwahanol.

50 Mae gan y Cyngor nifer o drefniadau cydweithio, yn cynnwys Cydweithrediad Seilwaith Canol Cymru, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rennir a Phartneriaeth Gwastraff Canol Cymru, sydd wedi parhau i feithrin a datblygu buddiannau gweladwy i'r Cyngor, yn cynnwys arbedion effeithlonrwydd a gostyngiadau i gostau. Gallai'r Cyngor wneud mwy i esbonio'r effaith y bwriedir i rai o'r partneriaethau a'r trefniadau cydweithio hyn ei chael ac effaith hyn ar ddinasyddion.

51 Ceir prosiectau partneriaeth a chydweithio hefyd sydd wedi sicrhau canlyniadau cadarnhaol i ddinasyddion, ac sy'n parhau i wneud hynny. Er enghraifft, mae'r Cyngor wedi gweithio'n effeithiol gyda nifer o bartneriaid amrywiol o'r sectorau statudol, gwirfoddol a'r trydydd sector, mewn ymateb i'r tywydd niweidiol iawn a gafwyd ym mis Ionawr a mis Chwefror 2014. Bu'r Cyngor yn cydweithio ar draws y sir i sicrhau bod ei ddinasyddion yn ddiogel ac yn derbyn gwasanaethau hanfodol, yn arbennig ei ddinasyddion iau a hŷn, a mwy agored i niwed.

52 Gweithia’r Cyngor gyda’i bartneriaid cymunedol a phartneriaid o’r trydydd sector, er mwyn sicrhau bod trigolion Ceredigion yn derbyn cymorth digonol ar symudedd, er mwyn gallu byw bywydau actif a llawn. Mae’n cydweithio gyda chynghorau cymuned a Chymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) i sicrhau bod trafnidiaeth ar gael i grwpiau sy’n weithredol yng Ngheredigion, a thrigolion sydd â phroblemau symudedd.

## Mae'r Cyngor yn rheoli ei raglen wella yn fwy effeithiol ac mae'n ymgorffori diwylliant yn seiliedig ar berfformiad drwy weithredu fframwaith rheoli perfformiad corfforaethol newydd

53 Mae trefniadau cynllunio gwelliannau newydd y Cyngor yn sail i broses gadarn ac effeithiol o wneud penderfyniadau, ac mae ei gynlluniau gwella yn adlewyrchu gweledigaeth a nodau trosfwaol y Cyngor. Mae'r Cyngor yn rhoi ystyriaeth dda i effaith ariannol ei gynlluniau gwella, ac mae cyswllt da rhwng y Strategaeth Ariannol Canol Tymor a'r nodau, ac mae cyswllt clir rhwng y Cynllun Integredig Sengl, strategaeth gorfforaethol a chynllun gwella'r Cyngor, a'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal gan wasanaethau i'w cyflawni.

### Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliannau o dan y Mesur, ond gallai wneud mwy i weithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru

54 Mae Cynllun Gwella'r Cyngor ar gyfer 2013-14 yn gosod amcanion gwella'r Cyngor yn eu cyd-destun, ond roedd cyfle pellach i egluro'r perthnasau rhwng y Cynllun Gwella a dogfennau strategol eraill y Cyngor, a'r blaenoriaethau maent yn eu disgrifio.

55 Ar gyfer pob amcan gwella, mae'r Cynllun Gwella yn cynnwys adran fer sy'n esbonio'r cyd-destun. Fodd bynnag, byddai wedi bod yn bosibl gwneud defnydd gwell o'r data ansoddol a meintiol, er mwyn helpu'r darllenwr i werthfawrogi pam fod yr amcan gwella yn bwysig. Er enghraifft, a yw'n faes sy'n bwysig iawn i gymunedau lleol, neu a yw'n faes lle nad yw'r Cyngor yn llwyddo i gyflawni ei uchelgeisiau neu a yw ond yn awyddus i wella perfformiad sydd eisoes yn dda?

56 Hefyd, nid oedd y Cyngor yn ddigon cyson wrth ddisgrifio ei uchelgais. Er bod mesurau llwyddiant wedi'u diffinio ar gyfer pob un o'r amcanion, nid oedd gan rai ohonynt wybodaeth ddigonol am dargedau, sy'n ei gwneud yn anodd i'r Cyngor a'i randdeiliaid asesu a yw'r amcanion gwella hyn yn cael eu cyflawni ai peidio. Er enghraifft, mae'r amcan gwella sy'n gysylltiedig â chefnogi pobl hŷn yn cynnwys un mesur llwyddiant ar gyfer cynyddu canran y bobl sy'n derbyn cymorth cymunedol. Nid oedd lefel y cynnydd arfaethedig wedi'i nodi, a oedd yn golygu nad oedd y darllenydd yn sicr beth oedd y Cyngor yn ceisio ei gyflawni.

57 Cyhoeddwyd Cynllun Gwella 2013-2014 ar ddiwedd mis Mai 2013, drwy bapurau cyfarfodydd y Cyngor ac yn fwy cyffredinol ar 14 Mehefin 2013, pan gafodd ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Cynhyrchwyd fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r Cynllun, ac roedd yn cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor. Roedd copïau papur o'r Cynllun ar gael mewn safleoedd allweddol ar hyd a lled y sir.

58 O ganlyniad i hyn, cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun Gwella ar gyfer 2014-15 ar 26 Mehefin 2014. Roeddem wedi rhagweld y byddai'r Cyngor yn mynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd uchod wrth baratoi'r Cynllun. Fodd bynnag, ar ôl cynnal ein harchwiliad o gynllun eleni, mae nifer o broblemau y llynedd yn parhau, yn arbennig, nid oes eglurder o hyd yn y cynllun ynglŷn ag uchelgais y Cyngor. Mae hyn yn golygu ei bod yn parhau i fod yn anodd asesu maint y gwelliannau neu'r newidiadau y mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud a beth yw amserlen hyn.

## Mae trefniadau rheoli perfformiad yn datblygu, ond mae angen mwy o amser i ddatblygu model sy'n rheoli perfformiad ac yn ysgogi newidiadau gwirioneddol i ganlyniadau gwasanaethau

59 Mae trefniadau rheoli perfformiad yn datblygu, ond mae angen mwy o amser i newid dull mesur perfformiad yn fodel sy'n rheoli perfformiad ac sy'n ysgogi newidiadau gwirioneddol i ganlyniadau gwasanaeth. Er hynny, mae rhai enghreifftiau eisoes lle mae hyn wedi digwydd, er enghraifft sefydlogrwydd lleoliadau rhai grwpiau o blant sy'n derbyn gofal a'r gofal a roddir i bobl hŷn mewn cartrefi preswyl penodol. Mae'r Cyngor wedi atgyfnerthu lefel yr her sy'n gysylltiedig â pherfformiad yn sylweddol. Mae potensial i'r Cyngor i wneud y broses hon yn fwy cadarn eto, drwy gynnwys aelodau craffu. Byddai hyn yn darparu amrediad ehangach o her, byddai'n darparu gwybodaeth well i aelodau craffu, a gallai arwain at flaenraglenni gwaith craffu mwy cytbwys.

60 Yn y gorffennol, nid yw Penaethiaid Gwasanaethau wedi deall pwysigrwydd y Fframwaith Perfformiad. Fodd bynnag, yn dilyn y gwaith ailstrwythuro, a dealltwriaeth well ynglŷn ag atebolrwydd a chyflwyno'r fframwaith rheoli perfformiad corfforaethol, maent yn ymgysylltu'n llawer mwy adeiladol yn y broses. Mae defnyddio templed safonol yn ysgogi cysondeb. Bydd y templed hwn yn parhau i ddatblygu, gyda'r posibilrwydd o dderbyn enghreifftiau o arfer da o gynghorau eraill, er enghraifft syniadau cliriach ynglŷn ag effaith risgiau a materion sy'n effeithio ar gamau gweithredu presennol, yn ogystal â'r rhai sy'n dilyn, gan gyflwyno buddiannau pellach.

61 Mae'r Cyngor hefyd yn datblygu ei ymagwedd at hunanwerthuso. Fel cam cychwynnol, mae'r Cyngor yn gwerthuso ei wasanaethau yn nhermau eu gallu i gyflawni gwelliannau. Mae angen datblygu hyn ymhellach er mwyn gwerthuso'r effaith y mae'r Cyngor yn ei chael ar ganlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio model dau ddimensiwn, perfformiad presennol ac asesiad o'i barodrwydd i wneud gwelliannau pellach. Mae'n ddyddiau cynnar i'r broses hon, a dim ond un cylch blynyddol sydd wedi'i gwblhau; fodd bynnag, mae'r safbwyntiau cychwynnol ar y broses hon yn awgrymu bod angen asesiad mwy cadarn, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar y Cyngor, a gwerthusiad mwy gwrthrychol o'r wybodaeth hon.

62 Er bod y trefniadau rheoli perfformiad gwasanaethau yn gwella'n gyflym, nid yw'r trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer swyddogaethau gweinyddol y Cyngor wedi datblygu i'r un graddau. Er enghraifft, ym meysydd TGCh ac Adnoddau Dynol. Yma, amrediad cyfyngedig o fesurau sydd ar waith, ac ychydig o dargedau, sy'n ei gwneud yn anodd i werthuso perfformiad, er bod y ddwy swyddogaeth yn bwriadu adolygu hyn dros y misoedd nesaf.

63 Wrth gydnabod gwendid yn ei allu i werthuso perfformiad ei bartneriaethau, mae'r Cyngor wedi datblygu fframwaith rheoli perfformiad newydd yn benodol ar gyfer partneriaethau, a gafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd Gwasanaeth Lleol ym mis Ionawr 2014. Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys amrediad eang o fesurau, dulliau cofnodi lefelau gwahanol o fanylion ar lefelau gwahanol o'r bartneriaeth, protocolau ar gyfer trosglwyddo materion i lefel uwch a threfniadau adrodd clir a rheolaidd.

64 Mae'r trefniadau rheoli risg yn parhau i gael eu hatgyfnerthu, gyda Phenaethiaid Gwasanaethau, y Grŵp Arwain, y Cabinet a'r Pwyllgor Archwilio yn mabwysiadu rolau gweithredol. Mae'r grwpiau amrywiol hyn yn cydweithio i ddeall a rheoli risg, sy'n galluogi i faterion risg ganolbwyntio ar flaenraglenni gwaith craffu a'r cabinet.

## Mae adroddiadau cyhoeddus y Cyngor ar berfformiad yn deg a chytbwys ar y cyfan, ond nid yw'n darparu gwerthusiad clir eto i ddinasyddion o'r cynnydd mae'r Cyngor yn ei wneud i gyflawni ei amcanion gwella ac effaith ei weithgareddau gwella ar ddefnyddwyr gwasanaeth a dinasyddion

65 Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cofnodi o dan y Mesur, drwy gyhoeddi asesiad o'i berfformiad yn ystod 2012-13 yn ei Gynllun Gwella – Perfformiad 2012-13 cyn 31 Hydref 2013. Mae'r adroddiad perfformiad yn asesu perfformiad y Cyngor yn y flwyddyn ariannol flaenorol (2012-13) ac mae'n nodi sut mae'r Cyngor wedi ceisio cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur. Mae'r adroddiad perfformiad yn nodi gweithgarwch y Cyngor sy'n ceisio cyflawni ei amcanion gwella ac mae'n mynegi ei berfformiad mewn ffordd deg a chytbwys ar y cyfan. Mae'r adroddiad perfformiad yn cynnwys cyfeiriad byr a gwybodaeth gyswllt i ddinasyddion sy'n awyddus i roi adborth neu roi sylwadau ar berfformiad y Cyngor, er y byddai'n bosibl gwella hyn a'i wneud yn fwy amlwg.

66 Mae'r adroddiad ar berfformiad yn cynnwys manylion am berfformiad a chymariaethau, sydd wedi'u mesur gan ddangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol. Mae hefyd yn cyfeirio at y ffyrdd y mae'r Cyngor wedi ceisio cydweithredu. Fodd bynnag, mae rhychwant ac ansawdd y dadansoddiad o fesurau perfformiad, y wybodaeth ansoddol a'r data cymharu yn yr adroddiad yn rhy gyfyngedig. Yn gyffredinol, nid yw'n darparu dadansoddiad clir i ddinasyddion o'r cynnydd mae'r Cyngor yn ei wneud at gyflawni ei amcanion gwella, ac effaith i weithgareddau gwella ar ddefnyddwyr gwasanaeth a dinasyddion.

67 Nid yw'r adroddiad perfformiad ychwaith yn darparu gwybodaeth ddigonol ar fuddiannau'r gweithgarwch cydweithredol hyd yma. Dylai hyn gynnwys beth sydd wedi'i gyflawni, ac a yw'r canlyniadau bwriadedig yn cael eu cyflawni ai peidio. Byddai'r math hwn o wybodaeth yn galluogi'r Cyngor i fesur, gwerthuso ac adrodd yn fwy tryloyw ar y buddiannau gwirioneddol sy'n cael eu cyflawni drwy weithgareddau cydweithredol.

68 Un prawf pwysig o drefniadau rheoli perfformiad a hunanwerthuso newydd y Cyngor fydd ansawdd ei adroddiad ar berfformiad cyhoeddus eleni. Byddwn yn adolygu'r ddogfen hon, *Cynllun Gwella - Perfformiad 2013-14*, ar ôl iddo gael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2014.

## Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau o ran adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

69 Cyflwynodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, ei farn archwilio ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu'r Cyngor ar 25 Medi 2013, gan gadarnhau eu bod yn cyflwyno darlun teg a chywir o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad 3.

## Mae'r Cyngor wedi gwella ei brosesau yn sylweddol, er mwyn gallu cynllunio a monitro ei weithgarwch ar gyfer ei agenda gwella, ond mae'r cynnydd tuag at gyflawni ei ganlyniadau arfaethedig yn parhau i fod yn amrywiol

### Nid yw rhaglen dreigl o gynlluniau i leihau ynni wedi cyflawni gostyngiad cyfatebol mewn allyriadau $CO_2$ y Cyngor, er bod cynlluniau diwygiedig ar waith i wella'r canlyniadau dros y flwyddyn sydd i ddod

70 Mae'r Cyngor wedi cwblhau rhaglen dreigl o gynlluniau i leihau ynni. Fodd bynnag, yn ystod 2012-13 roedd yr allyriadau $CO_2$ a gofnodwyd gan y Cyngor 8.5 y cant yn uwch na'r rhai a gofnodwyd yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r Cyngor wedi lleihau effaith y cynnydd hwn drwy gyhoeddi'r ffigurau gradd diwrnod wedi'u haddasu, sy'n dangos bod y Cyngor wedi lleihau allyriadau carbon o 0.4 y cant yn ystod 2012-13.

71 Mae Cynllun Rheoli Carbon newydd 2012-13 – 2016-17 wedi'i gwblhau, ac mae'r naratif yng *Nghynllun Gwella – Perfformiad 2012-13* y Cyngor, yn cadarnhau bod hyn wedi helpu'r Cyngor i adolygu'r sefyllfa bresennol a chodi ymwybyddiaeth o leihau allyriadau carbon o fewn llinellau gwasanaeth amrywiol y Cyngor. Nid yw'r Cyngor yn esbonio bod Llywodraeth Cymru wedi pennu gostyngiad targed o dri y cant y flwyddyn, a'u bod wedi methu cyflawni'r targed hwn.

72 Er gwaethaf yr anawsterau, mae gan y Cyngor ddealltwriaeth glir yn awr o'r stori sy'n sail i'w berfformiad. Wrth ymateb i'r ffaith nad oedd wedi llwyddo i wella perfformiad yn y maes hwn, mae wedi cynnull grŵp gorchwyl a gorffen er mwyn lleihau costau trydan, cynhyrchu incwm gan ddefnyddio biomas a phaneli ffotofoltäig a lleihau allyriadau carbon. Mae gan y Cyngor ffocws clir ar y ffordd mae'n bwriadu gwella perfformiad yn y maes hwn, ac mae ganddo drefniadau cadarn mewn grym er mwyn gwella. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd ac adolygu'r ffigurau perfformiad, er mwyn asesu'r effaith y flwyddyn nesaf.

### Mae'r Cyngor wedi cynnal ei ffocws cryf ar leihau gwastraff, sydd wedi'i alluogi i gyraedd targedau cenedlaethol

73 Roedd perfformiad y Cyngor ym maes gwastraff yn dda yn 2012-13, a llwyddodd i gyflawni'r targedau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Lleihawyd cyfran y gwastraff trefol a anfonwyd i safleoedd tirlenwi, yn unol â'r cyfartaledd cenedlaethol; llwyddodd y Cyngor i gynnal ei statws fel y trydydd o 22 o gynghorau am yr ail flynedd yn olynol. Mae cyfran y gwastraff trefol a gasglwyd i'w ail-ddefnyddio a/neu ei ailgylchu wedi parhau i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru; llithrodd y Cyngor i'r wythfed safle o 22. Yn ogystal â'r buddiannau amgylcheddol a gyflawnwyd, roedd rhagori ar y targedau cenedlaethol ar gyfer gwastraff yn sicrhau bod y Cyngor yn osgoi cosbau ariannol posibl.

74 Ym mis Tachwedd 2012, cyflwynodd y Cyngor drefniant casglu gwastraff bwyd, ochr yn ochr â'r trefniadau casglu gwastraff i'w ailgylchu ar garreg y drws, a oedd yn golygu nad oedd gwastraff organig yn mynd i safleoedd tirlenwi. Mae'r gwastraff hwn yn cael ei drin drwy dreulio anaerobig, ac mae cynnyrch y broses hon yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu trydan a chompost. Mae hyn, ochr yn ochr â'r mentrau ailgylchu eraill sydd wedi'u mabwysiadu gan y Cyngor,

wedi sicrhau bod y Cyngor wedi cyflawni'r targedau ar gyfer paratoi gwastraff i'w ailgylchu.

75 Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda chynghorau eraill, ac mae'n edrych ar atebion tymor byr i'r tymor canolig ar gyfer llosgi gwastraff gweddilliol na ellir ei ailgylchu, tra bod y bartneriaeth ranbarthol yn datblygu ymagwedd ar gyfer atebion tymor mwy.

## Mae gwasanaeth addysg y Cyngor wedi'i asesu fel y gwasanaeth gorau o'i fath yng Nghymru

76 Mae Estyn, arolygiaeth ysgolion yng Nghymru, wedi asesu bod perfformiad presennol y Cyngor a'u capasiti i wella yn rhagorol. Mae hyn yn darparu'r canlyniad gorau i'r Cyngor yn arolygiadau Estyn yng Nghymru yn ystod y rownd bresennol o arolygiadau.

77 Roedd Estyn o'r farn bod perfformiad presennol y Cyngor yn rhagorol oherwydd:

- yn 2013, roedd y safonau da yn ysgolion Ceredigion yn golygu bod y Cyngor ymysg y pum awdurdod gorau yng Nghymru ar gyfer pob cyfnod allweddol yn y prif ddangosyddion perfformiad;
- y cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yw'r cyfraddau gorau yng Nghymru;
- roedd gan bob disgybl a oedd wedi gadael yr ysgol yn ystod y tair blynedd diwethaf o leiaf un cymhwyster cydnabyddedig;
- mae gan y Cyngor brosesau cadarn ac effeithlon iawn i gefnogi, herio ac ymyrryd yn ei ysgolion;
- y defnydd rhagorol o ddata drwy'r Cyngor cyfan, a'u cyfraniad at drefniadau monitro, herio ac ymyrryd y Cyngor mewn ysgolion;
- cyfraniad effeithiol holl athrawon ysgolion cynradd mewn gweithgareddau cymedroli a gwaith cymedroli gwaith disgyblion drwy'r awdurdod cyfan;
- y ffordd lwyddiannus iawn y mae'r Cyngor yn diwallu anghenion dysgu ychwanegol disgyblion;
- y ffordd effeithiol iawn y mae'r Cyngor yn hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles; a'r
- ymagwedd gydgysylltiedig rhwng y gwasanaethau sy'n darparu cymorth a'r her i ysgolion wella ymddygiad a chyfraddau presenoldeb.

78 Roedd Estyn o'r farn bod capasiti'r Cyngor i wella yn rhagorol oherwydd:

- mae arweinyddiaeth strategol y Cyngor yn gryf, yn wleidyddol ac yn gorfforaethol;
- mae gan uwch swyddogion ddealltwriaeth dda iawn o flaenoriaethau corfforaethol ac felly, mae cydweithrediad effeithiol iawn rhwng gwasanaethau;
- mae cynlluniau strategol y Cyngor ar gyfer addysg yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Cynllun Integredig Sengl, y Strategaeth Gorfforaethol a'r Cynllun Gwella, gyda llinellau

atebolrwydd cryf a chyson tuag at gynlluniau gweithredol effeithiol ar bob lefel;

- mae hunanwerthusiad wedi'i ymgorffori'n gadarn yn niwylliant y Gwasanaeth Dysgu ac, yn gynyddol, yn y Cyngor drwyddo draw;
- mae'r fframwaith atebolrwydd clir a chadarn yn y Gwasanaethau Dysgu yn arfer da y sector; ac
- mae effaith gwaith partneriaeth strategol ar wella canlyniadau a darpariaethau ar gyfer dysgu yn rhagorol.

## Gwneir cynnydd gyda phrosesau'r Cyngor i foderneiddio ei gymorth i bobl sy'n agored i niwed, ond mae enghreifftiau o arferion da yn cael eu gwrthbwyso gan risgiau allweddol a allai effeithio ar gyflymder y newid

79 Bu i AGGCC gyhoeddi ei *Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad 2012-13* ym mis Hydref 2013, ac mae ar gael ar ei wefan: www.aggcc.org.uk. Mae canfyddiadau AGGCC wedi'u crynhoi ym mharagraffau 80 i 89 isod.

80 Mae Cyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ceredigion wedi cytuno na fyddant yn rhannu Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn hytrach, bydd rhai meysydd gwasanaeth yn cael eu datblygu ar y cyd, er enghraifft, cydweithrediad ym meysydd comisiynu a datblygu'r gweithlu. Bydd y penderfyniad hwn yn galluogi'r Cyngor i symud ymlaen, yn dilyn cyfnod o ansicrwydd.

81 Mae'r Cyngor wedi cwblhau rhaglen o drawsnewid corfforaethol. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad yn nifer yr adrannau ac uwch reolwyr, sydd bellach yn golygu bod un cyfarwyddwr strategol a phedwar pennaeth gwasanaeth yn y gwasanaeth Gofal, Diogelu a Ffordd o Fyw. Y Penaethiaid Gwasanaeth sydd wedi derbyn cyfrifoldeb gweithredol dros eu meysydd gwasanaeth priodol.

82 Er bod rhai meysydd o gynnydd ac arloesedd, mae'r Cyngor yn wynebu pwysau sylweddol i'w gyllideb. Mae'n rhaid iddo gynyddu cyflymder newidiadau, yn arbennig comisiynu strategol, os yw am allu ymateb i ofynion y dyfodol a darparu gwasanaethau cynaliadwy. Ymddengys bod y capasiti i wneud hyn yn gyfyngedig, ac mae hynny'n peri pryder.

83 Cyflawnwyd gwelliannau sylweddol wrth adolygu gofal a chymorth i bobl hŷn. Cyflawnwyd ymrwymiad da gan asiantaethau partner yn sgil datblygu pwyllgor diogelu oedolion cadarn ac effeithiol, ac mae wedi atgyfnerthu swyddogaethau diogelu oedolion y Cyngor. Mae gwaith partneriaeth parhaus gyda'r gwasanaethau iechyd a chydweithrediad Canolbarth a Gorllewin Cymru, ynghyd â'r ffrydiau gwaith cydweithredol gyda Chyngor Sir Powys yn bwysig ar gyfer datblygu gwasanaethau oedolion yn y dyfodol.

84 Gwnaed cynnydd yn y Gwasanaethau Plant, mewn ymateb i argymhellion arolygiadau diweddar, er gwaethaf absenoldeb pennaeth gwasanaeth yn ystod y flwyddyn. Ceir tystiolaeth o ddatblygiadau ym maes gweithio gyda theuluoedd a gwelliannau o ran recriwtio staff. Mae ymdeimlad cliriach o gyfeiriad yn datblygu ar gyfer y gwasanaeth.

85 Mae gweithio mewn partneriaeth o fewn cydweithrediad Canolbarth a Gorllewin Cymru yn parhau i ddarparu cyfleoedd i sicrhau sefydlogrwydd a chynaliadwyedd y ddarpariaeth gwasanaeth a roddir i blant a theuluoedd.

86 Mewn ymateb i feysydd datblygu y llynedd, mae'r Cyngor wedi llwyddo i wneud rhywfaint o gynnydd yn y gwasanaethau oedolion a'r gwasanaethau plant. Mae gwaith yn parhau ar nifer o feysydd, ac maent yn cael eu cynnwys unwaith eto yn adroddiad eleni. Gwnaed cynnydd o ran adolygu anghenion pobl yn y timau oedolion, amseroldeb a chysondeb ansawdd yr asesiadau cychwynnol a chraidd ar gyfer plant ac amseroldeb adolygiadau plant mewn angen. Mae angen sylw o hyd ar y gwaith o ddatblygu darpariaeth nyrsio addas ar gyfer pobl â dementia, a chapasiti'r gwasanaethau gofal ail-alluogi a gofal cartref.

87 Mae AGGCC wedi nodi'r risgiau posibl canlynol:

- Yr heriau o oruchwylio a chydgysylltu nifer o drefniadau partneriaeth gwahanol ar draws ffiniau gwahanol, a sicrhau bod hyn yn darparu cynllun ystyrlon ar gyfer y dyfodol. Mae hefyd yn bwysig sicrhau nad yw cydweithrediad yn arafu'r angen i'r Cyngor wneud cynnydd o ran mynd i'r afael â blaenoriaethau brys.
- Comisiynu gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion yn y dyfodol, a'r capasiti i ddatblygu hyn.
- Dygnwch ariannol, wrth wynebu pwysau sylweddol o ran y gyllideb, ar draws y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

88 Mae AGGCC wedi nodi'r meysydd canlynol o arfer da:

- Prosiect COASTAL ar gyfer pobl ag anableddau, yn arbennig anabledd dysgu neu broblemau iechyd meddwl.
- Gwasanaethau cymorth i deuluoedd. Mae gan y rhain swyddogaeth bwysig, ac maent yn creu canlyniadau da i blant a theuluoedd.

89 Gwneir cynnydd da o ran moderneiddio gwasanaethau i bobl hŷn ar draws y sir. Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i ddatblygu ei strategaethau comisiynu ac mae'n cyflawni'r strategaethau hynny gyda'i bartneriaid yn meysydd iechyd a rhaglen gydweithredol canolbarth a gorllewin Cymru.

## Mae'r Cyngor wedi cymryd camau cadarnhaol i ffurfioli'r cyfrifoldeb dros y Gymraeg yn y Cyngor ond ni lwyddodd i gyrraedd pob targed yn ei gynllun gweithredu yn ystod 2012-13

90 Crëwyd rôl Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Disgwylir i'r pwerau newydd orfodi sefydliadau i gyflawni safonau, a bydd y rhain yn dod i rym drwy is-ddeddfwriaeth erbyn diwedd 2014. Yn y cyfamser, bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau'r iaith Gymraeg drwy'r pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

91 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru i archwilio a rhoi cyngor ar weithredu cynlluniau iaith. Yr awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg, yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod lleol yn ymrwymedig i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd, sy'n rhoi amlinelliad o'i berfformiad o ran cyflwyno'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro; mae'n darparu ymateb ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach, yn ôl yr angen.

92 Mae'r Cyngor wedi cymryd camau cadarnhaol i ffurfioli'r cyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg yn y Cyngor, drwy greu swydd newydd Swyddog y Gymraeg a Chydraddoldeb, a'i gynnwys ym mhortffolio Arweinydd y Cyngor. Sefydlwyd pwyllgor ymgynghorol hefyd, sef Pwyllgor yr Iaith Gymraeg, sy'n atebol i'r Cabinet am gynorthwyo'r Arweinydd. Mae'r Cyngor yn cydnabod na lwyddodd i gyrraedd pob targed yn ei gynllun gweithredu ac mae ymrwymiad i gyflawni'r targedau yn 2013-14. Nid yw'r Cyngor wedi llwyddo i gynnal unrhyw hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg, sef un o ymrwymiadau ei gynllun iaith. Mae'r Cyngor wedi llwyddo i fonitro darpariaeth Cymraeg contractau trydydd parti, ond mae angen mynd i'r afael â'r defnydd o'r Gymraeg mewn cartrefi gofal y sector preifat.

93 Fodd bynnag, mae penodiad Swyddog Cydraddoldeb a'r Polisi Iaith Gymraeg wedi galluogi'r Cyngor i fabwysiadu ymagwedd sy'n canolbwyntio mwy ar gyflawni'r cynllun Iaith Gymraeg. Er mwyn arddangos y ffocws gwell hwn, mae'r Cyngor hefyd wedi cyflawni'r gweithrediadau canlynol:

- dulliau monitro data gwell a sefydlu ymagwedd fwy cydgysylltiedig ar gyfer cynllunio iaith, sy'n sicrhau bod y Cyngor yn gweithio'n barhaus i gyflawni'r targedau yn ei Gynllun Iaith Gymraeg;
- gwell ymwybyddiaeth ymhlith y staff o'r gofyniad i gydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg; ac
- fel rhan o'i ymrwymiad i gefnogi a hyrwyddo'r iaith Gymraeg, mae targedau clyfar ychwanegol wedi'u pennu, er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, fel rhan o Gytundebau Canlyniad y Cyngor.

94 Mae'r Cyngor yn cynhyrchu'r adroddiad monitro blynyddol ar hyn o bryd, ar weithredu ei Gynllun Iaith Gymraeg ar gyfer y flwyddyn adrodd 2013-14, a fydd yn cael ei archwilio gan Bwyllgor y Gymraeg a'r Cabinet, cyn ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg erbyn 1 Hydref 2014. Mae'r Cyngor yn hyderus y bydd yr adroddiad yn dangos bod cynnydd yn cael ei wneud gyda'i Gynllun Iaith Gymraeg, a'i fod ar y trywydd cywir i gyflawni'r dangosyddion perfformiad sydd wedi'u nodi yn y Cynllun.

## Mae'r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus ar gyfer 2014-15

95 Rydym wedi seilio'r casgliad hwn ar y canfyddiadau cynharach yn yr adroddiad hwn. Yn benodol, rydym wedi datgan:

- bod arweinyddiaeth gadarn a chlir yn ysgogi ymagwedd gorfforaethol a chydweithredol, sy'n canolbwyntio ar wella canlyniadau gwasanaeth i ddinasyddion, er bod yr ymgysylltiad â dinasyddion yn llai nag effeithiol;
- bod gan y Cyngor fodel llywodraethu cadarn ac effeithiol, gyda llinellau atebolrwydd clir, lle mae prosesau craffu a herio yn datblygu'n dda;
- bod y Cyngor yn rheoli ei adnoddau'n dda i ddarparu gwasanaethau gwell i ddinasyddion, er ei fod yn wynebu penderfyniadau anodd os yw am lwyddo i gydbwyso ei gyllideb yn y tymor canolig;
- bod gan y Cyngor drefniadau gwell ar waith i reoli'r gwaith o gyflawni arbedion a chanlyniadau cadarnhaol i ddinasyddion, drwy weithio mewn partneriaeth a chydweithredu;
- bod y Cyngor yn llwyddo i reoli ei rhaglen wella yn fwy effeithiol, ac mae'n ymgorffori diwylliant o berfformio drwy gyflwyno fframwaith rheoli perfformiad corfforaethol newydd; a
- bod y Cyngor wedi gwella ei brosesau yn sylweddol er mwyn gallu cynllunio a monitro ei weithgarwch ar gyfer ei agenda gwella ond mae'r cynnydd at gyflawni ei ganlyniadau arfaethedig yn parhau i fod yn amrywiol.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn *Adroddiad Gwella Blynyddol* cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Geredigion a Chyngor Sir Ceredigion

## Y Cyngor

Mae'r Cyngor yn gwario tua £172.5 miliwn y flwyddyn (2012-13). Mae hyn yn cyfateb i tua £2,269 fesul trigolyn. Yn yr un flwyddyn, gwariodd y Cyngor £20 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd.

Yn 2012-13, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D ar gyfer Ceredigion oedd £1,169.27 y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu 3.1 y cant i £1,205.47 y flwyddyn ar gyfer 2013-14. Mae 61.5 y cant o dai Ceredigion yn perthyn i fandiau treth gyngor A i D.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 42 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd a wneir o adnoddau. Mae aelodaeth wleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 19 Plaid Cymru, 11 Annibynnol, tri Llais Annibynnol: Clymblaid
- Saith Democrat Rhyddfrydol Cymru
- Dau heb fod yn aelodau o unrhyw blaid

Prif Weithredwr y Cyngor yw Miss Bronwen Morgan.  Mae'n cael ei chynorthwyo gan:

- Cyfarwyddwr Strategol – Dysgu a Phartneriaethau: Mr Eifion Evans
- Cyfarwyddwr Strategol – Gofal, Diogelwch a Ffordd o Fyw: Mr Parry Davies
- Cyfarwyddwr Strategol – Adnoddau Corfforaethol: Mr W. Gwyn Jones
- Cyfarwyddwr Strategol – Cymunedau Cynaliadwy: Mr Huw T. Morgan

## Gwybodaeth arall

Aelodau'r Cynulliad dros Geredigion yw:

- Elin Jones, Ceredigion, Plaid Cymru
- Rebecca Evans, Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, y Blaid Lafur
- Simon Thomas, Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, Plaid Cymru
- Joyce Watson, Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, y Blaid Lafur
- William Powell, Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Yr Aelodau Seneddol dros Geredigion yw:

- Mark Williams, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Am ragor o wybodaeth, gweler gwefan y Cyngor ei hun yn www.ceredigion.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn Cyngor Sir Ceredigion, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0PA. Ffôn: 01545 570881 neu e-bost reception@ceredigion.gov.uk.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol

Yr Arweinydd
Cyngor Sir Ceredigion
Penmorfa
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0PA

Annwyl Gynghorydd Ellen ap Gwynn

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ar 25 Medi 2013, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Hysbyswyd aelodau'r Pwyllgor Archwilio am y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 12 Medi 2013 a'r Cyngor ar 19 Medi 2013.

Roedd y mater mwyaf arwyddocaol yn ymwneud ag addasiad gofynnol ar gyfer Eiddo, Cyfarpar ac Offer, sef £2,638,000. Nid oedd y Cyngor wedi rhoi cyfrif am eitem o wariant cyfalaf ar y fantolen, a oedd yn gysylltiedig ag un prosiect cyfalaf penodol, oherwydd amseriad cwblhau ac ail-werthuso'r ased. Bu i'r Cyngor wneud addasiad priodol ar gyfer yr eitem hon yn y cyfrifon terfynol.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Ar y cyfan, rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'u profi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 25 Medi 2013.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2012-13 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

Yn gywir

**John Golding**

Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig
10 Hydref 2013

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Ceredigion

## Amcanion gwella'r Cyngor

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ar gyfer 2013-14 yn ei *Gynllun Gwella – Amcanion 2013/2014*, sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.ceredigion.gov.uk. Maent fel a ganlyn:

| Amcanion gwella 2013-14 |
|---|
| Gwella ein dulliau rheoli ynni er mwyn galluogi'r Cyngor i fod yn fwy 'gwyrdd' ac effeithlon |
| Gwella'r safonau Addysg yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 4 |
| Helpu pobl hŷn i fwy'n fwy annibynnol |
| Datblygu rhagolygon economaidd Aberystwyth fel canolfan ranbarthol |

## Hunanasesiad y Cyngor o berfformiad

Mae hunanasesiad y Cyngor o berfformiad yn ystod 2012-13 ar gael yng *Nghynllun Gwella – Perfformiad 2012/2013* y Cyngor, sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.ceredigion.gov.uk ac ym mhrif swyddfeydd y Cyngor.

# Atodiad 5
# Astudiaethau Achos a nodwyd yn ystod ein Hasesiad Corfforaethol yng Nghyngor Sir Ceredigion

## Llywodraethu ac atebolrwydd

**Astudiaeth Achos – y Pwyllgor Moesau a Safonau**

Er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Cod Ymddygiad ymhlith Cynghorau Cymuned, mae aelodau annibynnol y Pwyllgor Moesau a Safonau wedi cynnal cyfres o ymweliadau i Gynghorau Cymuned yn ystod 2013. Yn ystod cyflwyniad byr i'r Cod, mae'r aelodau annibynnol yn dosbarthu 'cwestiynau sy'n cael eu codi yn aml' ac ymarferion i'r Cynghorwyr, sydd wedi helpu i ysgogi cwestiynau am y Cod, sydd wedi arwain at drafodaethau diddorol ac addysgiadol. Rhoddir copïau o'r pecyn hyfforddiant i Gadeirydd a Chlerc y Cyngor, er gwybodaeth.

**Astudiaeth Achos – Gweddarlledu a Mynychu o Bell**

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyllid i bob un o'r 22 Cyngor i ddarparu cyfleuster Gweddarlledu ac i ddarparu cyfleusterau mynychu o bell ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi defnyddio'r arian hwn i ddatblygu ei ateb ei hun, drwy brosiect ar y cyd gyda Theatr Felin-fach, yr adran Rheoli Cyfleusterau a TGCh, a defnyddio gwasanaeth ffrydio cost isel drwy'r rhyngrwyd.

Mae gweddarllediadau'r Cyngor yn cael eu cynnal gan Livestream, ac maent wedi galluogi'r defnyddwyr i ddewis fersiynau Cymraeg https:///new.livestream/com/Ceredigion/ neu Saesneg https:///new.livestream/com/CeredigionEng/

Mae Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd wedi cyflwyno'r cyfleuster mynychu o bell ar sail beilot. Cynhaliwyd y cyfarfod yn Aberaeron, a bu i Gynghorydd fynychu'r cyfarfod o bell o Aberystwyth. Roedd y cynllun peilot yn llwyddiannus ar y cyfan, ac roedd yr hyn a oedd yn cael ei ddweud yn cael ei gyfieithu ar y pryd yn Aberystwyth. Nodwyd rhai materion technolegol a chyfreithiol a gwersi a ddysgwyd, y gellir eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol eraill.

## Defnyddio adnoddau

**Astudiaeth achos – Rheoli Dogfennau ac Offer Cydweithio Mewnol**

Cafwyd cyfle yn swyddfeydd newydd y Cyngor, yng Nghanolfan Rheidol, i sefydlu mwy o ffyrdd electronig o weithio a lleihau'r angen am gofnodion papur yn y Cyngor. Y fenter gyntaf a gyflwynwyd oedd Microsoft SharePoint ar y safle Mewnrwyd. Mae hyn yn galluogi pob aelod o staff i gael mynediad i wybodaeth, ffeiliau electronig a meysydd tîm/prosiect sy'n cael eu rhannu, er mwyn hybu cydweithrediad. Ar ei ffurf symlaf gall safle tîm neu safle prosiect gynnwys rhestr o ddogfennau y gellir cael gafael arnynt o unrhyw le a chydweithio arnynt. Yn ogystal â hyn, ceir rhestr tasgau, calendr, a'r gallu i reoli cyfarfodydd, mae Microsoft SharePoint yn darparu'r blociau adeiladu sydd eu hangen i gydweithio ar-lein ar draws pob un o leoliadau'r Cyngor, a hynny unrhyw bryd.

Er mwyn cefnogi ymdrechion y Cyngor i sganio a chofnodi dogfennau yn gyflym, crëwyd ePost. Mae ePost yn debyg i Microsoft Outlook, ond yn hytrach na rheoli'r e-bost, mae'n rheoli'r llif, ac yn prosesu a storio dogfennau.

Er mwyn cefnogi'r system e-bost a SharePoint ymhellach, mae cyflwyno Microsoft Lync wedi trawsnewid y gallu i gydweithio. Mae'r system hon, sy'n galluogi negeseuon gwib ac sy'n dangos pa ddefnyddwyr sydd ar gael, yn golygu y gall staff ar draws y Cyngor cyfan gadw mewn cysylltiad a gwirio data allweddol yn gyflym. O ymholiadau syml, i rannu sgriniau manwlu, mae Microsoft Lync wedi rhoi mwy o ymdeimlad o weithio fel tîm i'r defnyddwyr.

Gyda'i gilydd, mae SharePoint, e-bost, ePost a Lync yn galluogi ffyrdd o weithio mwy cydweithredol, sy'n ysgogi'r defnydd o ddulliau gweithio electronig, cyflawni arbedion, cydweithredu gwell, storio ac adfer dogfennau, galluogi timau i gadw mewn cysylltiad a chynnig opsiynau gwell ar gyfer gweithio o bell.

## Cydweithio a phartneriaethau

**Astudiaeth achos – System Gwybodaeth Gofal Cymunedol ar y Cyd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn chwarae rhan flaenllaw mewn prosiect ar y cyd rhwng wyth Awdurdod Lleol yng Nghonsortiwm System Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i gaffael System Gwybodaeth Gofal Cymunedol, a fydd yn diwallu gofynion TGCh i wasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cymunedol. Mae'r prosiect yn cael ei gydnabod fel cyfle gwirioneddol i ddarparu ateb TGCh a fydd yn rhoi cefnogaeth well i waith integredig yn y dyfodol. Bydd pob Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd yng Nghymru yn cael cyfle i gaffael y system o'u dewis hwy; felly, mae'r System Gwybodaeth Gofal Cymunedol yn cynnig cyfle gwirioneddol i ddarparu ateb cenedlaethol i Gymru. Bwriedir i'r contract gael ei ddyfarnu ym mis Rhagfyr 2014.

## Rheoli gwelliannau

**Astudiaeth achos – Sefydlogrwydd Lleoliadau Plant sy'n Derbyn Gofal**

Looking at stability of placements the Council had mapped performance of this national performance
Wrth edrych ar sefydlogrwydd lleoliadau, mae'r Cyngor wedi mapio perfformiad y dangosydd perfformiad cenedlaethol hwn dros nifer o flynyddoedd. Roedd yn amlwg bod y perfformiad wedi bod yn dirywio'n gyson. O ganlyniad i'r gwaith hwn o fapio perfformiad, daeth i'r amlwg bod y mesur hwn yn cyflwyno risg i'r Cyngor ac i Gynllun Integredig Sengl y Bwrdd Gwasanaeth Lleol. Penderfynodd grŵp Gweithredol y Bwrdd Gwasanaeth Lleol mai'r Grŵp Rhianta Corfforaethol presennol fyddai'r grŵp aml-asiantaeth arweiniol i ddelio â'r manylion ac i lunio cynllun gweithredu a chostau. Cymerwyd y camau canlynol:

- Cynhaliwyd dadansoddiad cychwynnol, a ddatgelodd mai 19 blant oedd yn cynrychioli'r 24 y cant o blant a oedd wedi cael tri lleoliad neu fwy. Hefyd, roedd cyfanswm nifer y plant sy'n derbyn gofal yn gymharol fach, ac roedd wedi gostwng yng Ngheredigion. Roedd hyn wedi dwysáu effaith y dangosydd.

- Comisiynwyd ymgynghorydd i ystyried y 19 achos ac i weld pa batrymau, os o gwbl, a oedd wedi'u datgelu. Roedd adroddiad yr ymgynghorydd wedi datgelu tueddiadau amlwg. Roedd nifer o'r plant wedi'u symud oherwydd honiadau a wnaed yn erbyn y gofalwyr maeth – rhai ohonynt wedi'u cadarnhau ond nid pob un. Roedd yr ail fater yn ymwneud â materion ymddygiad rhai o'r plant, ac nad oedd eu gofalwyr maeth wedi gallu eu rheoli.

- Cyflogwyd ymchwilydd academaidd i ddarparu adolygiad cyfresol o'r gwaith ymchwil i'r hyn sy'n gweithio wrth gynnal lleoliadau. Ystyriwyd gwersi o Gymru a Lloegr.

- Cyflwynodd y ddau arbenigwr eu gwaith i'r grŵp gorchwyl a gorffen, a oedd yn cynnwys ymarferwyr a gofalwyr maeth, yn ogystal â rheolwyr.

- Cyflwynodd y grŵp hwn eu hargymhellion i'r Grŵp Rhianta Corfforaethol ym mis Medi.

- Cytunwyd ar gynllun gweithredu a chynigion gan y Grŵp Rhianta Corfforaethol, sy'n cael eu cyflwyno gan y Tîm Plant a Theuluoedd.

- Roedd adroddiad wedi'i gynhyrchu yn ddiweddar ac wedi'i gymeradwyo gan y Grŵp Arweinyddiaeth, sy'n cynnwys y dadansoddiad a'r cynllun, yn ogystal â'r achos busnes ar gyfer adnoddau Maeth Arbenigol.

Oherwydd y bydd yn cymryd ychydig o amser i sefydlu'r Cynllun Maeth Arbenigol, mae'n debygol y bydd y perfformiad yn parhau i fod yn uchel yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, fodd bynnag, mae'r tueddiad yn gwella. Bydd y cynllun, a pherfformiad y dangosydd hwn yn cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd.

## Perfformiad a chanlyniadau

**Astudiaeth Achos – Canolfan Athrawon**

Mae'r Ganolfan Athrawon yn System Rheoli Gwybodaeth ar y we, a ddatblygwyd yn fewnol, ar gyfer ysgolion a'r Cyngor. Mae'r Ganolfan Athrawon yn cael ei datblygu'n gyson, er mwyn cynnwys y datblygiadau a'r newidiadau diweddaraf i arferion gwaith a safonau technegol.

Prif nod y Ganolfan Athrawon yw uno data i ffurfio un safbwynt, a fydd yn helpu'r ysgolion a'r Cyngor i weithio mewn partneriaeth a defnyddio'r un data. Ei ail nod yw lleihau'r baich biwrocrataidd drwy rannu'r defnydd o ddata, er enghraifft, mae cofnodion derbyniadau sy'n cael eu cofnodi'n fewnol yn golygu nad oes angen i ysgolion gofnodi data â llaw yn eu systemau, ac mae'r thema hon yn cwmpasu nifer o feysydd, o fanylion y staff i ginio ysgol am ddim.

Mae'r Ganolfan Athrawon yn cael ei defnyddio drwy Bowys gyfan, ac mae'n cael ei chyflwyno fel rhaglen beilot yn Sir Gaerfyrddin. Mae trafodaethau wedi dechrau'n ddiweddar gyda Sir Benfro. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cynnal arddangosiadau ac mae wedi disgrifio gwaith y Cyngor fel enghraifft o arfer da.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk